Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir
Dyddiad yr archwiliad: 15–23 Mawrth 2017
Dyddiad yr ymweliad dilynol: 3–4 Medi 2019

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 5–6 Chwefror 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| ARGYMHELLIAD | STATWS | HEB EI GYFLAWNI'N FLAENOROL | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau gan ystyried y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd y dyfodol yn cael eu datblygu ymhellach yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>O fewn y cynllun Iechyd Porthladd, amcangyfrif o nifer yr arolygiadau gwirio glanweithdra, arolygiadau preswyl a gwiriadau maniffestau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar weithgarwch y blynyddoedd blaenorol. | Roedd rhaglenni o ymyriadau ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys yr holl ymyriadau dyledus. Roedd niferoedd amcangyfrifedig o wiriadau iechyd porthladd hefyd wedi'u cynnwys. | Cwblhawyd. |
| 3.23 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol gan ystyried y cynllun gwasanaeth bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. [Y Safon – 3.2] | Oren | Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol gan ystyried y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd, gan gynnwys:<br>• Data perfformiad clir ar gyfer ymyriadau a gyflawnwyd. | Mae'r adolygiad perfformiad blynyddol yn adrodd ar yr ymyriadau a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol, ond nid yw'n dangos yn glir niferoedd a phroffil risg yr ymyriadau sydd heb eu cyflawni. | Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol o fewn y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol gan ystyried y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd, gan gynnwys:<br>• Data perfformiad clir ar gyfer ymyriadau a gyflawnwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygiad o sefydliadau safonau bwyd â sgôr o B neu C.<br>• Prydlondeb yr ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus. | | • Adolygiad o sefydliadau safonau bwyd â sgôr o B neu C.<br>• Prydlondeb yr ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus. |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 3.23 (iii) Sicrhau bod unrhyw amrywiadau o ran bodloni'r cynllun gwasanaeth bwyd yn y cynllun dilynol yn cael sylw. [Y Safon – 3.3] | Oren | Sicrhau bod yr holl amrywiadau'n cael sylw, gan gynnwys:<br>• Amrywiadau wrth gynnal ymyriadau safonau bwyd sy'n ddyledus mewn safleoedd Categori B ac C.<br>• Yr amrywiad yn nifer y sefydliadau heb sgôr yr adroddwyd amdanynt mewn perthynas â'r sefydliadau hynny heb sgôr y mae ganddynt sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei rhoi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>• Yr amrywiad mewn samplau safonau bwyd a gymerwyd mewn perthynas â'r rhaglen arfaethedig o samplau. | Rhoddwyd sylw i rai amrywiadau, gan gynnwys y sefydliadau heb sgôr y mae ganddynt sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei dyrannu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Sicrhau bod pob amrywiad yn cael sylw, gan gynnwys:<br>• Amrywiadau wrth gynnal ymyriadau safonau bwyd sy'n ddyledus mewn safleoedd Categori B ac C.<br>• Yr amrywiad mewn samplau safonau bwyd a gymerwyd o gymharu â'r rhaglen arfaethedig o samplau. |

| ARGYMHELLIAD | STATWS | HEB EI GYFLAWNI | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 5.9 (i) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gynnal rheolaethau swyddogol o ran hylendid bwyd a safonau bwyd, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Sicrhau bod lefel awdurdodi swyddogion yn gyson â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad ym mhob achos. [Y Safon – 5.3] | Gwyrdd | Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn nodi amrywiad rhwng nifer gwirioneddol y swyddogion cyfwerth ag amser llawn (CALl) wrth eu gwaith o gymharu â'r amcangyfrif o nifer y swyddogion CALl sydd eu hangen.<br>Mae diffyg mewn ymyriadau hylendid a safonau bwyd â sgôr a heb eu sgorio sydd wedi'u cwblhau yn unol â'r amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.<br>Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i gynnal rheolaethau swyddogol o ran hylendid bwyd a safonau bwyd.<br><br>Sicrhau bod dogfennau awdurdodi diwygiedig yn cael eu darparu ar gyfer swyddogion safonau masnach yn seiliedig ar eu cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. | Mae'r asesiad adnoddau yn y Cynllun Gwasanaeth yn dangos diffyg yn nifer y swyddogion sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth.<br><br>Roedd tystysgrifau awdurdodi swyddogion safonau bwyd wedi'u diweddaru ac maent yn seiliedig ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad.<br><br>Roedd dilysiad cysondeb y CSHB yn cael ei gymhwyso i gontractwyr. | Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i gynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd. |
| 5.9 (ii) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| ARGYMHELLIAD | STATWS | HEB EI GYFLAWNI | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 5.9 (iii) Cynnal cofnodion o’r holl hyfforddiant a phrofiad perthnasol ar gyfer swyddogion awdurdodedig. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.30 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Cynllun seiliedig ar risg ar waith er mwyn ail-alinio â’r amlderau ymyrryd a nodir yn y Cod erbyn diwedd 2024/25. | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.30 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd a chymeradwyo a chofrestru sefydliadau yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau’r Gwasanaeth ei hun. Yn benodol, sicrhau, lle bo hynny’n berthnasol, fod sgôr risg ymyrryd yn cael ei dyfarnu’n gyson a bod y cynllun gorfodi amgen yn cael ei gynnal yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod cofnod o’r dyddiad dod i law yn cael ei gadw ar gyfer pob ffurflen gofrestru.<br><br>Sicrhau cysondeb wrth ddilyn y broses gywir ar gyfer cymeradwyo safleoedd.<br><br>Sicrhau bod arolygiad yn cael ei gynnal ar ôl achos o ymgymryd â gweithgarwch cynllun gorfodi amgen, lle bo hynny’n briodol. | Mae’r dyddiadau’n cael eu cofnodi.<br><br>Mae’r broses gymeradwyo gywir yn cael ei rhoi ar waith.<br><br>Mae cynllun gorfodi amgen yn cael ei gynnal yn unol â’r gofynion. | Cwblhawyd. |

| ARGYMHELLIAD | STATWS | HEB EI GYFLAWNI | CYNNYDD HYD YMA | HEB EI GYFLAWNI |
|---|---|---|---|---|
| 7.30 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol, a chymryd camau priodol ar unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a nodir, yn unol â pholisi gorfodi'r Gwasanaeth. [Y Safon – 7.3] | Glas | Sicrhau bod gwiriadau ar fwydydd a fewnforir a marciau adnabod sy'n dod i mewn yn cael eu cynnal yn gyson.<br><br>Ar gyfer safleoedd cymeradwy, sicrhau bod marciau adnabod/iechyd sy'n dod i mewn a'r broses o gymhwyso marciau adnabod sy'n mynd allan yn cael eu hasesu'n gyson. | Mae gwiriadau ar fwydydd a fewnforir a nodau adnabod sy'n dod i mewn yn cael eu cynnal mewn safleoedd cofrestredig a chymeradwy. Yn ogystal, mae gwiriadau ar nodau adnabod sy'n mynd allan yn cael eu cynnal mewn safleoedd cymeradwy. | Cwblhawyd. |
| 7.30 (iv) Sicrhau bod y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau yn cael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio, amserlenni ar gyfer ailymweliadau a chyfarwyddyd i swyddogion o ran a ddylid cymryd samplau. Yn ogystal, diwygio'r Weithdrefn Ymyrryd Amgen ar gyfer Diogelwch Bwyd, i gynghori ar y camau i'w cymryd gyda busnesau nad ydynt yn ymateb. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.30 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod y data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | Sicrhau bod graddfa gweithgarwch busnes yn cael ei chofnodi'n gyson yn ystod ymyriadau. | Graddfa'r gweithgarwch wedi'i chofnodi. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 7.40 (i) Cynnal arolygiadau llong yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau’r Gwasanaeth ei hun. Yn benodol, rhaid sicrhau bod adroddiadau arolygu a thystysgrifau eithrio llongau yn cael eu cwblhau yn unol â’u gweithdrefnau. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod arsylwadau’n cael eu cofnodi a’u cynnal ar ffeil ar gyfer yr holl arolygiadau glanweithdra a bod pob adroddiad yn cynnwys y dyddiad adeiladu, p’un a gymerwyd samplau, a rôl y swyddog. | Mae arsylwadau wedi’u cofnodi a’u cadw ar ffeil ar gyfer pob arolygiad glanweithdra a byrddio, ac mae adroddiadau’n cynnwys yr wybodaeth ofynnol. | Cwblhawyd. |
| 7.40 (ii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ardal y Gwasanaeth yn llawn, yn unol â’r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Glas | Sicrhau bod pob archwiliad llong yn cynnwys asesiad llawn o gydymffurfiaeth yn erbyn gofynion priodol. | Asesir cydymffurfiaeth yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). | Cwblhawyd. |
| 7.55 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Yn bwriadu ail-alinio ag amlder ymyriadau’r Cod erbyn diwedd 2025/26. Mae ffyrdd newydd o weithio yn gwella’r gyfradd ymyrraeth ond mae ôl-groniad yn nifer y sefydliadau sydd heb gael ymyriad ac nad ydynt wedi’u targedu ar sail risg safonau bwyd neu wedi’u meintioli’n llawn. | Sicrhau bod pob sefydliad busnes yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.55(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â’r Cod Ymarfer | Glas | Sicrhau mai dim ond y safleoedd hynny sy’n gymwys ar gyfer strategaethau gorfodi | Sefydliadau risg isel bellach yn cael arolygiad. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | | amgen sy'n cael eu cynnwys ac na roddir sgôr risg yn dilyn ymyriad strategaeth gorfodi amgen. | | |
| 7.55 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ardal y Gwasanaeth, yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol [Y Safon – 7.3] | Oren | Sicrhau bod gweithgareddau safonau bwyd perthnasol yn cael eu hasesu'n gyson, lle bo hynny'n briodol. | Roedd cofnodion ymyriadau risg is yn dangos bod asesiadau priodol o weithgareddau perthnasol yn cael eu cynnal. | Sicrhau bod gweithgareddau safonau bwyd perthnasol yn cael eu hasesu'n gyson, lle bo'n briodol mewn sefydliadau risg uwch. |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 7.55 (iv) Adolygu, diwygio a gweithredu'r weithdrefn arolygu safonau bwyd i gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â chofnodi achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio, amserlenni ar gyfer camau dilynol a'r dull o ymdrin ag arolygiadau mewn busnesau newydd i sicrhau bod y weithdrefn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.55 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod y data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Oren | Sicrhau bod cofnodion cyfoes o arsylwadau arolygu ar gael ym mhob achos, a bod maint a graddfa gweithgareddau busnes yn cael eu cofnodi'n gyson. | Roedd arsylwadau arolygu mewn safleoedd risg is yn ddigonol, a chofnodwyd maint a graddfa'r gweithgareddau. | Sicrhau bod cofnodion cyfoes o arsylwadau arolygu ar gael ym mhob achos, a bod maint a graddfa gweithgareddau busnes yn cael eu cofnodi'n |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyson mewn safleoedd risg uwch. |
| 8.7 (i) Sicrhau yr ymchwilir i gwynion neu geisiadau am wasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r Gwasanaeth. [Y Safon – 8.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod ymchwiliadau i geisiadau am wasanaeth safonau bwyd yn cael eu cynnal yn drylwyr, mewn modd amserol a bod y rheiny sy'n cwyno, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu hysbysu o'r canlyniad ym mhob achos. | Roedd ymchwiliadau'n gyson drylwyr, a hysbyswyd achwynwyr o'r canlyniad, lle'r oedd hynny'n briodol. | Sicrhau bod ymchwiliadau i geisiadau am wasanaeth safonau bwyd yn cael eu cynnal yn gyson ac mewn modd amserol. |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 9.6 (i) Mae angen i'r Gwasanaethau sicrhau eu bod yn cysylltu â'r Prif Awdurdodau mewn perthynas â throseddau a nodir o ganlyniadau samplu hylendid bwyd anfoddhaol. [Y Safon – 9.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 11.5 (i) Sicrhau bod data sgorio risg, dyddiadau arolygu dyledus ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, a data gorfodi hylendid bwyd wedi'u cofnodi'n gywir a'u cadw'n gywir ar gronfa ddata'r Gwasanaeth. Hefyd, mae angen sicrhau mai dim ond y sefydliadau hynny sydd wedi cael arolygiad safonau bwyd sy'n cael eu sgorio felly ar y gronfa ddata, a dim ond y rheiny sy'n destun ymyriad amgen sy'n cael eu codio yn unol â hynny. [Y Safon – 11.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod gwiriadau ar wallau sgorio risg y gronfa ddata a dyddiadau dyledus yn cael eu gweithredu.<br>Sicrhau bod camau gorfodi wedi'u codio'n gywir yn y gronfa ddata.<br>Sicrhau bod sefydliadau heb eu sgorio sydd â sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei dyrannu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cael eu nodi fel sefydliadau heb eu sgorio. | Mae gwiriadau data safleoedd unigol yn cael eu cynnal fel rhan o waith monitro mewnol.<br>Camau gorfodi wedi'u codio'n gywir.<br>Mae sefydliadau heb eu sgorio sydd â sgôr safonau bwyd hanesyddol na chafodd ei dyrannu yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd bellach wedi'u nodi fel rhai heb eu sgorio. | Sicrhau bod gwiriadau llawn o'r gronfa ddata yn cael eu cynnal ar ansawdd data a bod gwallau yn nyddiadau dyledus sgoriau risg yn cael eu cywiro. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11.5 (ii) Rhoi ei weithdrefnau cofnodedig ar waith yn llawn er mwyn sicrhau bod ei gronfa ddata yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfoes bob amser. [Y Safon – 11.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.12 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi samplu ar gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 12.12 (ii) Adolygu a diwygio ei weithdrefnau cofnodedig ar gyfer samplu a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.12 (iii) Sicrhau bod busnesau'n cael gwybod am ganlyniadau samplu hylendid bwyd anfoddhaol yn unol â'i bolisi a'i weithdrefn gofnodedig. [Y Safon – 12.6] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 12.12 (iv) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu hylendid bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 15.21 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid, cytundebau cau gwirfoddol a chadw bwyd, atafael, ardystio Rheoliad 27 ac ildio, gan sicrhau eu bod yn cynnwys manylion trefniadau lleol, yn benodol; drafftio (gan gynnwys defnyddio templedi cymeradwy), dull a chofnod o'r gwasanaeth. Dylid diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Brys at Ddibenion Hylendid a chytundebau cau gwirfoddol i gynnwys trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Dylai gweithdrefnau gwahardd hefyd | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gynnwys prosesau cyfreithiol lleol ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Llys. Dylid diwygio'r gweithdrefnau ar gyfer cadw, atafaelu, ardystio Rheoliad 27 ac ildio i gynnwys y trefniadau lleol ar gyfer condemnio a dinistrio neu waredu bwyd. [Y Safon - 15.2] | | | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 15.21 (ii) Sefydlu gweithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer camau dilynol a gorfodi mewn perthynas â hysbysiadau gwella gwybodaeth bwyd, erlyniadau, rhybuddion syml a bwyd wedi'i fewnforio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer defnyddio hysbysiadau gwella gwybodaeth bwyd wedi'i dogfennu.<br>Sicrhau bod swyddogion yn cael eu cyfeirio'n glir at unrhyw ddogfennau templed i'w defnyddio ar y cyd â'r erlyniad a gweithdrefnau cyflwyno rhybudd syml. | Mae'r weithdrefn ar gyfer defnyddio hysbysiadau gwella safonau bwyd wedi'i dogfennu.<br><br>Swyddogion yn cael cyfarwyddyd i ddefnyddio templed ar gyfer y broses erlyn a ffeilio rhybuddion syml. | Cwblhawyd. |
| 15.21 (iii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei gyflawni yn unol â gweithdrefnau'r Gwasanaeth, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2 ac 15.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod gwiriadau cydymffurfiaeth amserol yn cael eu cwblhau mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella Hylendid (HINs) a Hysbysiadau Camau Unioni (RANs) a bod manylion y llys lleol yn cael eu cynnwys gyda phob RAN.<br>Sicrhau bod tystiolaeth o'r awdurdodiad cywir a chytundeb â phrofion perthnasol gan Swyddog Erlyn yr awdurdod | Gwiriadau cydymffurfiaeth amserol yn cael eu cynnal ar gyfer HINs a RANs.<br>Mae manylion y llys lleol wedi'u cynnwys gyda'r RANs.<br>Mae'r gwaith o awdurdodi erlyniadau yn gywir yn digwydd o fewn cyfyngiadau'r gwasanaeth. | Sicrhau bod cofnodion datgelu yn cael eu llofnodi yn unol â'r gweithdrefnau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | lleol, ar gyfer pob erlyniad, yn cael ei gynnal gan bob un o'r awdurdodau lleol ar ffeiliau achos y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir. Sicrhau bod cofnodion datgelu yn cael eu llofnodi yn unol â'r gweithdrefnau. | | |
| 15.21 (iv) Sicrhau bod Polisi Cydymffurfio a Gorfodi'r Gwasanaeth wedi'i weithredu'n llawn, a sicrhau bod y rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a bennwyd yn y Polisi yn cael eu cofnodi. [Y Safon – 15.1 ac 15.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 16.7 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ardal y Gwasanaeth, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar gyfer pob ymyriad/arolygiad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, elfennau craidd HACCP, pennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd diffyg cydymffurfio, manylion unrhyw | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gamau gorfodi a gymerwyd ac, ar gyfer sefydliadau cymeradwy, yr wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodiad 10 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 16.12 (i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn ardal y Gwasanaeth, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar gyfer pob ymyriad/arolygiad sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, pennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol y swyddog awdurdodedig, canlyniadau samplu a chwynion. Dylai'r gwasanaeth hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro | Gwyrdd | Sicrhau bod modd cael gafael ar adroddiad priodol ar gyfer pob ymyriad a'i fod yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn Atodiad 6. | Roedd cael gafael yn gyson ar adroddiadau ynghylch safleoedd risg uchel,ac roeddent yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol. | Sicrhau bod adroddiad ymyrryd priodol yn cynnwys:<br>• y gyfraith bwyd benodol a ystyriwyd wrth gynnal yr ymyriad<br>• y mannau a arolygwyd/archwiliwyd (i'w nodi)<br>• y dogfennau a/neu'r cofnodion eraill a archwiliwyd (i'w nodi)<br>• y samplau a gymerwyd (i'w nodi)<br>• y prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad (i'w nodi) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | | | • y camau i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (i'w nodi)<br>• manylion cyswllt yr uwch swyddog os bydd anghydfod |
| 16.12 (ii) Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 16.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
| 19.11 (i) Dylai'r Gwasanaeth roi ei weithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar waith yn llawn i gynnwys ymyriadau safonau bwyd a gynhelir gan bob tîm, ymyriadau iechyd porthladdoedd, ymchwiliadau i glefydau heintus, digwyddiadau, ceisiadau am wasanaeth safonau bwyd, Strategaethau Gorfodi Amgen, a gwaith samplu dilynol. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Rhoi'r gweithdrefnau ar waith yn llawn yn unol â'r argymhelliad; sicrhau bod cofnodion monitro mewnol yn cael eu datblygu a'u cwblhau.<br><br>Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i ganiatáu i weithgareddau monitro mewnol gael eu cynnal yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod. | Mae tystiolaeth o fonitro mewnol yn cynnwys ymyriadau iechyd porthladdoedd, ymchwiliadau i glefydau heintus, digwyddiadau, ceisiadau am wasanaethau safonau bwyd a gwaith samplu dilynol. Mae adnoddau digonol ar gael i ganiatáu monitro mewnol. | Sicrhau bod monitro yn cynnwys gwiriadau swmp ar y gronfa ddata a monitro gweithgareddau AES a bod cofnodion priodol yn cael eu cadw i ddangos gwaith monitro o'r fath. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 19.11 (ii) Ar gyfer gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd fel ei gilydd, gwirio eu bod yn cydymffurfio â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig y Gwasanaeth. [Y Safon – 19.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod y system ar gyfer monitro mewnol yn caniatáu ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth yn llawn.<br><br>Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i ganiatáu i weithgareddau monitro mewnol gael eu cynnal yn unol â gweithdrefnau'r Gwasanaeth. | Gan fwyaf, mae'r system yn caniatáu gwirio cydymffurfiaeth lawn.<br><br>Mae adnoddau digonol ar gael i ganiatáu monitro mewnol. | Datblygu'r system fonitro fewnol ymhellach i gynnwys gwiriadau swmp ar y gronfa ddata a monitro gweithgareddau AES. |

| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | **HEB EI GYFLAWNI** |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio a darparu gwasanaethau yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae'r cynllun gwasanaeth wedi'i ddiwygio mewn perthynas â'r CSHB. Mae argymhellion y rhaglen ymyriadau dyblyg wedi'u cau. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas hyfforddiant swyddogion yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae cofnodion dilysu contractwyr yn dangos bod mesurau ar waith i sicrhau sgorio cyson. | Cwblhawyd. |
| **ARGYMHELLIAD** | **STATWS** | **HEB EI GYFLAWNI** | **CYNNYDD HYD YMA** | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r CSHB wedi'u diwygio. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â chamau gorfodi yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Roedd adroddiadau arolygu'n cynnwys dilysrwydd y CSHB a gwybodaeth am apeliadau. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â sgorio ac ail-sgorio yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Gwyrdd | | Ymgymerir â'r rhan fwyaf o'r ymyriadau sgorio yn briodol. | Sicrhau bod sgoriau yn ymwneud â risg sylweddol a hyder mewn rheolaeth, gan gynnwys achosion hanesyddol, yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r gofynion. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | | Mae monitro mewnol yn cwmpasu agweddau perthnasol ar y CSHB. | Cwblhawyd. |

<u>Crynodeb</u>

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **41** |
| **Cwblhawyd** | **27** |
| **Cynnydd da** | **9** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **5** |
| **Dim cynnydd** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **14** |